Senedd Cymru

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adroddiad ar orlifoedd stormydd yng Nghymru

Mawrth 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddHinsawdd@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddHinsawdd**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adroddiad ar orlifoedd stormydd yng Nghymru

Mawrth 2022

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



**Janet Finch-Saunders AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Huw Irranca-Davies AS**
Llafur Cymru



**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru



**Joyce Watson AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd ....................................................................................5**

**Argymhellion .......................................................................................................6**

**1. Cyflwyniad..........................................................................................................8**

**2. Pam mae carthion yn cael eu rhyddhau i afonydd Cymru?................9**

**3. Beth sy’n cael ei wneud i fynd i’r afael â gollyngiadau carthion?....13**

**4. Beth sy’n digwydd nesaf? ......................................................................18**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae afonydd Cymru yn rhan hanfodol o'i threftadaeth naturiol. Maent yn darparu cynefinoedd ar gyfer amrywiaeth o fywyd gwyllt a phlanhigion, yn boblogaidd ar gyfer gweithgareddau hamdden, ac yn helpu i ddod â phobl yn nes at natur. Ond maent o dan fygythiad. Mae llygredd o garthffosiaeth, arferion amaethyddol a ffynonellau eraill yn golygu bod llai na hanner afonydd Cymru mewn cyflwr da. Ni allwn ganiatáu i hyn barhau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld adroddiadau rheolaidd yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol am garthffosiaeth o orlifoedd stormydd yn cael ei gollwng i afonydd Cymru ar gyfradd annerbyniol. Dywedir bod afonydd yn rhy fudr i bobl eu mwynhau, ac wedi'u llygru gormod i gynnal pysgod a bywyd gwyllt arall. Mae hyn, wrth reswm, wedi arwain at ddicter cyhoeddus.

Er bod gorlifoedd stormydd yn gyfrannwr cymharol fach at iechyd gwael afonydd, mae'r cyhoedd wedi nodi'n glir eu bod yn disgwyl camau gweithredu cryfach i fynd i'r afael â'u heffaith.

Dylai gorlifoedd stormydd weithredu'n anaml ac mewn tywydd eithafol. Ond, yn syml, nid yw hynny'n wir. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod carthion wedi'u gollwng i afonydd yng Nghymru fwy na 105,000 o weithiau yn ystod cyfnod o 12 mis. Mae hyn yn awgrymu bod problem sylweddol. A gyda mwy o law o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, twf yn y boblogaeth, ac ehangu trefol, mae hyn yn siŵr o waethygu heb i gamau gael eu cymryd.

Mae ein hadroddiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, cwmnïau dŵr a rheoleiddwyr. Mae'n rhaid iddynt ddod at ei gilydd i gyflawni newid er mwyn gwella cyflwr afonydd Cymru.



**Llyr Gruffydd AS,**
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae nifer y gollyngiadau carthion i afonydd Cymru yn annerbyniol. Rhaid i ni weld camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru, yn ei rôl arwain, i sicrhau bod nifer a chyfeintiau y gollyngiadau yn cael eu lleihau fel mater o frys. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn yn nodi'r camau y mae wedi'u cymryd gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r mater hwn. ........ Tudalen 12

**Argymhelliad 2.** Rhaid i ni weld cynnydd amlwg gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ei waith i ddod â gorlifoedd stormydd 'nas caniateir' o fewn y drefn reoleiddio. Rydym yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch ei gynnydd heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn. ........ Tudalen 12

**Argymhelliad 3.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru a chwmnïau dŵr gyhoeddi data blynyddol a/neu wybodaeth am gyfran y gollyngiadau carthion nad ydynt o fewn amodau trwydded, pa gategori o ddigwyddiadau llygredd gafodd y rhain, ac a gymerwyd camau gorfodi. .... Tudalen 17

**Argymhelliad 4.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru, cwmnïau dŵr a rhanddeiliaid perthnasol eraill ddatblygu trefniadau monitro gwell gyda'r nod o gael gwell dealltwriaeth o effaith gollyngiadau ar ddŵr derbyn. Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, dylid ystyried rôl bosibl gwyddoniaeth dinesydd o fewn trefniadau gwell. ........ Tudalen 17

**Argymhelliad 5.** Dylai Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy anelu at adrodd ynghylch gollyngiadau o orlifoedd stormydd cyn pen awr ar ôl i'r gollyngiad dechrau, sy'n ofyniad a osodir ar gwmnïau dŵr yn Lloegr gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Os na allant gyflawni'r safon hon, dylai'r ddau gwmni egluro pam. ........ Tudalen 17

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y map ffordd ar gyfer Gorlifoedd Stormydd yn cynnwys targedau ac amserlenni ar gyfer lleihau gollyngiadau carthion. Dylai gynnwys dulliau monitro ac adrodd cynhwysfawr a thryloyw er mwyn gallu asesu cynnydd. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y cynnydd tuag at gyflawni'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r map ffordd ar gyfer Gorlifoedd Stormydd o fewn 12 mis ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi. ........ Tudalen 22

**Argymhelliad 7.** Dylai Ofwat adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau ei ymchwiliad i gwmnïau dŵr, i'r graddau y mae'r canfyddiadau hynny'n ymwneud â chwmnïau yng Nghymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i'r canfyddiadau hynny. ........ Tudalen 22

**Argymhelliad 8.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch y camau a gymerwyd o ganlyniad i ganfyddiadau ymchwiliadau Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd, cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw adolygiad o ddull cydymffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru ac unrhyw waith a wneir gyda chwmnïau dŵr, neu gamau gorfodi a gymerir yn eu herbyn, o ganlyniad i'r canfyddiadau hynny. ................................................ Tudalen 22

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Gweinidog weithio gyda phartneriaid i nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau i gynyddu atebion ar sail natur i reoli dŵr. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch y mater hwn heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn. ........................................................................................................................................ Tudalen 22

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn yn nodi'r gwahanol gamau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â phroblem llygredd yn afonydd Cymru o ffynonellau ar wahân i orlifoedd stormydd. ........................................................................................................................................ Tudalen 23

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae gorlifoedd stormydd wedi bod yn destun dadl gyhoeddus a gwleidyddol barhaus dros y flwyddyn ddiwethaf. Mynegwyd pryderon ynghylch amlder gollyngiadau carthion o orlifoedd stormydd, effaith andwyol gollyngiadau ar yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd, tanadrodd am ddigwyddiadau llygredd gan gwmnïau dŵr, a methiant rheoleiddwyr amgylcheddol i gymryd camau gorfodi pan fydd digwyddiadau llygredd yn digwydd.

**2.** Ym mis Hydref 2021, yn dilyn dadl a gafodd llawer o gyhoeddusrwydd yn Senedd y DU, diwygiwyd Bil yr Amgylchedd (Deddf yr Amgylchedd 2021 erbyn hyn) i gynnwys darpariaethau sydd â'r nod o leihau effaith gollyngiadau carthion o orlifoedd stormydd yn Lloegr.

**3.** Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd (yn Lloegr) 'ymchwiliadau mawr i ddiffyg cydymffurfio eang posibl gan gwmnïau dŵr a charthffosiaeth mewn gweithfeydd trin carthion'.

**4.** Gyda hyn yn gefndir i'r cyfan, cytunodd y Pwyllgor i ymgymryd â darn byr o waith i gael darlun cliriach o'r sefyllfa yng Nghymru. Aethom ati i ystyried faint o garthion sy'n cael eu gollwng a sut mae'r trefniadau presennol sy'n ceisio mynd i'r afael ag effaith gollyngiadau yn gweithio. Ni fwriadwyd i'n gwaith fod yn archwiliad manwl o effaith gollyngiadau carthion ar ansawdd afonydd yng Nghymru, nac o achosion penodol (neu achosion honedig) o lygredd carthion.

## Ein dull ni

**5.** Ym mis Tachwedd 2021, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd i ofyn iddi egluro a fyddai effaith y darpariaethau yn Neddf yr Amgylchedd 2021 yn golygu bod afonydd yn Lloegr yn cael eu diogelu'n well na'r rhai yng Nghymru. Fe wnaethom hefyd ysgrifennu at Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn a fyddai'n cynnal ymchwiliad i ddiffyg cydymffurfio posibl gan gwmnïau dŵr yng Nghymru. Mae'r cyfnewid hwn mewn gohebiaeth ar gael ar wefan Senedd Cymru.

**6.** Yn ein cyfarfod ar 3 Chwefror 2022, cawsom dystiolaeth gan Ofwat, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy. Hoffem ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i lywio ein gwaith.

# 2. Pam mae carthion yn cael eu rhyddhau i afonydd Cymru?

**7.** Mae llawer o Gymru'n cael ei gwasanaethu gan 'garthffosydd cyfun' lle mae dŵr gwastraff (o gartrefi a busnesau), a dŵr wyneb (e.e. dŵr ffo oddi ar ffyrdd, ardaloedd llawr caled a thoeau) yn llifo i un system garthffosydd. Mae'r dŵr hwn yn cael ei gludo i waith trin lle caiff ei lanhau a'i ddychwelyd i'r amgylchedd.

**8.** Yn ystod glaw trwm, gallai'r dŵr gwastraff cyfunol a dŵr ffo fod yn fwy na chapasiti'r gwaith trin dŵr gwastraff, gan arwain at ryddhau'r llif gormodol, heb ei drin, i'r amgylchedd. Mae 'systemau gorlifoedd storm' (a elwir hefyd yn 'orlifoedd carthffosiaeth cyfunol') wedi'u cynllunio i atal carthion rhag gorlifo i'r strydoedd ac i eiddo. Maent yn rhyddhau dŵr storm dros ben i afonydd a chyrsiau dŵr. Mewn gwirionedd, dylai gollyngiadau carthion o orlifoedd stormydd fod yn wan iawn oherwydd y cyfeintiau mawr o ddŵr storm sy'n llifo drwy'r carthffosydd.

## A ganiateir gollyngiadau carthion?

**9.** Mae'r trefniadau rheoleiddio ar gyfer gollyngiadau o orlifoedd stormydd yn cael eu rheoli gan **Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016**, sy'n nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr) i ganiatáu gollyngiadau i'r amgylchedd. Mae amodau'r drwydded yn ei gwneud yn ofynnol i systemau gorlifoedd storm gydymffurfio â safonau dylunio ac ansawdd dŵr, a rhaid gofalu nad ydynt yn achosi unrhyw ddirywiad yn ansawdd presennol dŵr derbyn.

**10.** Mae dros 2,500 o systemau gorlifoedd storm a ganiateir ledled Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn etifeddiaeth o arferion dylunio ac adeiladu carthffosydd tan ganol yr ugeinfed ganrif. Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru i'r Pwyllgor fod rhagdybiaeth bellach yn erbyn caniatáu systemau gorlifoedd storm newydd.

**11.** Gorlifoedd storm 'nas caniateir' yw'r rhai sy'n gweithredu heb drwydded. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi rhaglen ar waith "i sicrhau bod yr holl orlifoedd storm heb eu trwyddedu a nodwyd yng Nghymru yn cael eu dwyn o fewn ein fframwaith rheoleiddio. Fel hyn, byddwn yn asesu a oes effaith amgylcheddol o ganlyniad i'r gollyngiadau ac yn gofyn am y buddsoddiad priodol i sicrhau gwelliannau i'r seilwaith gwastraff".

## Pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa?

**12.** Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos ychydig dros 105,000 o ollyngiadau carthion (neu 'ollyngiadau') a gofnodwyd o 2,041 o orlifoedd stormydd. Mae hyn wedi arwain at feirniadaeth gyhoeddus gref o gwmnïau dŵr a Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid yw hyn yn cynnwys gorlifoedd storm nas caniateir na gorlifoedd nad ydynt yn cael eu monitro.

| | 2020 | 2019 | 2018 | 2017 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y gollyngiadau a gofnodwyd gan Fonitorau Hyd Digwyddiad** | 105,751 | 73,517 | 48,499 | 29,878 | 14,485 |
| **Nifer y gorlifoedd storm gyda Monitorau Hyd Digwyddiad wedi'u gosod** | 2,041 | 1,665 | 1,359 | 983 | 545 |

**13.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi bod "y cynnydd mewn gollyngiadau o flwyddyn i flwyddyn yn ganlyniad i osod mwy o offer monitro hyd digwyddiadau, a'r data sydd ar gael o ganlyniad i hynny". Trafodir monitro yn fanylach ym Mhennod 2.

## Beth mae'r cwmnïau dŵr yn ei ddweud?

**14.** Cydnabu cwmnïau dŵr fod systemau gorlifoedd storm yn gweithredu'n amlach nag sy'n dderbyniol. Gwnaethant esbonio fod hyn o ganlyniad i amrywiol resymau, gan gynnwys "gorlwytho hydrolig o lifau cynyddu ers i'r garthffos gael ei dylunio'n wreiddiol". Gall hyn gael ei achosi o ganlyniad i gysylltu arwynebau anhydraidd ychwanegol â'r rhwydwaith carthffosiaeth; mwy o law yn gyffredinol a glaw mwy dwys oherwydd newid yn yr hinsawdd; mwy o boblogaeth wedi'i gysylltu â'r rhwydwaith carthffosydd, a phroblemau gyda'r rhwydwaith (e.e. siltio ac ymdreiddio). Y rhesymau eraill a roddwyd oedd cam-gysylltu systemau draenio tir; blociadau a achosir gan eitemau 'na ellir eu fflysio', e.e. weips gwlyb neu olew coginio; a charthffosydd yn dymchwel a'r system garthffosydd yn dirywio, a all achosi gollyngiadau hefyd.

**15.** Dywedodd Dŵr Cymru wrth y Pwyllgor, "nid dyma yw'r sefyllfa yr hoffem fod ynddi. Gallwn weld yn glir bod nifer y gollyngiadau o orlifiadau storm yn fawr iawn, ac nid yw hynny'n gostwng". Dywedodd Hafren Dyfrdwy "rydym wedi ymrwymo i barhau i sbarduno perfformiad, gwella perfformiad, a derbyn bod llawer mwy y gall y diwydiant dŵr ei wneud".

**16.** Pwysleisiodd Dŵr Cymru y byddai cael gwared ar bob un o'r gorlifoedd stormydd a dileu gollyngiadau yn gofyn am ddyblygu bron y cyfan o'r rhwydwaith carthffosydd presennol ac amcangyfrifir y byddai'n costio rhwng £9 ac £14 biliwn. Byddai hyn yn "cynyddu biliau cwsmeriaid yn sylweddol – gan ychwanegu cannoedd o bunnoedd at fil pob cwsmer".

**17.** Yn ôl Hafren Dyfrdwy, "y prif fesur y dylid ei ddefnyddio i farnu cwmnïau dŵr yw'r niwed y mae eu gweithrediadau yn ei achosi i afonydd, fel y'i mesurir gan resymau dros beidio â chyflawni statws da (RNAGS)". Dywedodd Dŵr Cymru fod gorlifoedd storm yn rheswm pendant neu debygol am beidio â chyflawni statws da mewn 4.6 y cant o gyrff dŵr. Esboniodd Hafren Dyfrdwy, yn "[ei] ardal wastraff, dim ond saith y cant o'r rhesymau dros beidio â chyflawni statws da (RNAGS) sydd i'w priodoli i weithrediadau cwmnïau dŵr, ac mae gennym gamau eisoes ar y gweill i leihau hyn i 3.5 y cant".

## Beth mae Ofwat a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei ddweud?

**18.** Cydnabu Ofwat y "pryderon dwfn" am ollyngiadau carthion. Dywedodd fod y "lefel bresennol yn annerbyniol ac mae angen i ni weithio i newid hynny".

**19.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru:

> *"yn amlwg, rydyn ni'n deall y sefyllfa roedd Delyth yn codi gynnau a'r pryderon sydd gan bobl wrth weld gorlifo yn digwydd, ac yn poeni am effaith amgylcheddol y rheini. Ac mae'n bwysig nodi yn y fan yma ein bod ni i gyd yn cymryd y peth o ddifri, a'n bod ni i gyd eisiau symud ymlaen a gwneud yn sicr bod yna welliannau a bod yna broses o wella yn raddol dros y blynyddoedd yma sydd i ddod hefyd."*

## Ein barn ni

Mae'r system garthffosiaeth yng Nghymru yn dyddio o oes Fictoria. Fe'i cynlluniwyd ar gyfer cymdeithas ag anghenion cwbl wahanol. Dylai gorlifoedd stormydd weithredu'n anaml ac mewn tywydd eithriadol. Ond nid yw hynny'n wir heddiw. Yn lle hynny, rydym yn gweld nifer y digwyddiadau yn cynyddu'n sydyn, a sawl adroddiad am garthion yn ein hafonydd.

Mae'n gwbl resymol fod y cyhoedd wedi'u gwylltio gan yr hyn y maent yn ei weld.

Nid yw'n iawn fod rhiant yn ofni gadael i'w plentyn nofio mewn afon yng Nghymru rhag ofn llygredd a gwastraff dynol. Nid yw hyn yn dderbyniol yng Nghymru yn 2022.

Mae'r galw ar y system garthffosiaeth wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda mwy o law o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, ehangu'r boblogaeth, a newidiadau i'r amgylchedd adeiledig. Mae hyn yn golygu bod gorlifoedd storm yn gweithredu'n amlach.

Oherwydd dyluniad y system garthffosiaeth, mae angen systemau gorlifoedd storm er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd carthion i gartrefi a busnesau. Fodd bynnag, mae pryder cynyddol

ymhlith y cyhoedd ynghylch pa mor aml y maent yn gweithredu ac effaith gollyngiadau carthion ar yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd. Rydym yn rhannu'r pryderon hynny.

Waeth beth fo'r rhesymau, mae'n amlwg o'r data diweddaraf bod amlder gollyngiadau carthion ar lefel annerbyniol. Gan fod digwyddiadau tywydd eithafol yn digwydd yn amlach, mae'n debygol y bydd nifer y gollyngiadau'n cynyddu os na chymerir camau brys.

Mae nifer y gorlifoedd stormydd 'nas caniateir' sy'n gweithredu yng Nghymru yn destun pryder difrifol. Mae effaith bosibl gollyngiadau carthion o'r rhain ar yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd yn sylweddol. Hoffem weld cynnydd amlwg gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ei waith i ddod â gorlifoedd stormydd 'nas caniateir' o fewn y drefn reoleiddio. Rydym yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch ei gynnydd o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r safbwynt a nodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru sef bod rhagdybiaeth bellach yn erbyn caniatáu systemau gorlifoedd storm newydd.

**Argymhelliad 1.** Mae nifer y gollyngiadau carthion i afonydd Cymru yn annerbyniol. Rhaid i ni weld camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru, yn ei rôl arwain, i sicrhau bod nifer a chyfeintiau y gollyngiadau yn cael eu lleihau fel mater o frys. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn yn nodi'r camau y mae wedi'u cymryd gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r mater hwn.

**Argymhelliad 2.** Rhaid i ni weld cynnydd amlwg gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ei waith i ddod â gorlifoedd stormydd 'nas caniateir' o fewn y drefn reoleiddio. Rydym yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch ei gynnydd heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

# 3. Beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â gollyngiadau carthion?

## Gwella tryloywder

### Monitro Hyd Digwyddiadau

**20.** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu symudiad at wella'r gwaith o fonitro gollyngiadau carthion yng Nghymru a Lloegr. Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod hyn yn rhannol mewn ymateb i achosion am dorri cyfraith Ewropeaidd yn erbyn y DU am dorri'r Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol. Roedd y rhain yn cynnwys achosion o dorri'r rheolau ar draws sawl ardal ddaearyddol, gan gynnwys yng Nghilfach Tywyn lle y bu gollyngiadau gormodol i ddyfroedd y môr ger Sir Gaerfyrddin.

**21.** Dechreuodd Monitro Hyd Digwyddiadau (EDM) yng Nghymru yn 2012, pan gafodd cwmnïau dŵr gyfarwyddyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i osod cyfarpar i fonitro'r holl orlifoedd stormydd. Mae Monitorau Hyd Digwyddiadau yn cofnodi amlder a hyd gollyngiadau o systemau gorlifoedd storm (a elwir yn 'ollyngiadau'). Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru mai pwrpas EDM yw cael gwell dealltwriaeth o [effaith gorlifoedd stormydd] a statws y rhwydwaith carthffosiaeth.

**22.** Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, mae EDM wedi arwain at fwy o graffu a diddordeb ymysg y cyhoedd [mewn gorlifoedd stormydd]". Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor fod EDM yn Lloegr wedi symud ymlaen yn arafach [nag yng Nghymru] oherwydd dyddiad cychwyn hwyrach.

**23.** Ar hyn o bryd, mae gan Dŵr Cymru fonitorau ar bron 99 y cant o'i systemau gorlifoedd storm, ac mae ganddo tua 2,500 o'r rhain. Dywedodd Hafren Dyfrdwy fod ganddo fonitorau ar bob un o'i 50 systemau gorlifoedd storm.

**24.** Mae cwmnïau dŵr yng Nghymru eisoes yn cyhoeddi data EDM yn flynyddol ar eu gwefannau. Mae hefyd yn ofynnol iddynt ddarparu crynodeb i Cyfoeth Naturiol Cymru yn flynyddol, a gyhoeddir hefyd. I'r gwrthwyneb, tan yn ddiweddar dim ond ar gais y mae data EDM yn Lloegr wedi bod ar gael[1].

[1] Newidiodd hyn pan gyflwynwyd gofynion adrodd statudol ar gwmnïau dŵr yn Lloegr ac Asiantaeth yr Amgylchedd drwy'r darpariaethau yn Neddf yr Amgylchedd 2021.

**25.** Nid yw Monitorau Hyd Digwyddiad yn monitro cyfaint na difrifoldeb gollyngiadau. Dywedodd Ofwat wrth y Pwyllgor, "rydym yn gwybod hyd a nifer yr achosion o ollyngiadau, neu o leiaf mae gennym y data ar hynny nawr. Rwy'n credu nad oes digon yn hysbys ynghylch niwed y digwyddiadau hynny".

### Data gollyngiadau amser real

**26.** Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr yn Lloegr gyflwyno adroddiad ar ollyngiadau storm cyn pen awr ar ôl i'r gollyngiad ddechrau.

**27.** Dywed Dŵr Cymru ei fod yn darparu "Gwasanaeth Rhybudd Gorlifoedd Stormydd Cyfun Amser Real yn wirfoddol drwy gydol y flwyddyn mewn 30 o safleoedd ymdrochi yng Nghymru, gan ddarparu gwybodaeth amser real i ddefnyddwyr cofrestredig ynghylch pryd mae Gorlifoedd Stormydd Cyfun yn dechrau gweithredu a phryd maent yn dod i ben". Darperir y gwasanaeth hwn i reolwyr traethau, megis yr awdurdod lleol, ac i Surfers Against Sewage ar gyfer ei wefan a'i ap Gwasanaeth Moroedd Mwy Diogel, ac anfonir hysbysiadau at Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd.

**28.** Esboniodd Dŵr Cymru ei fod yn ystyried sut y gellir cyflawni gwelliannau o ran darparu data amser real yng Nghymru.

### Gwyddoniaeth dinesydd

**29.** Cydnabu Cyfoeth Naturiol Cymru rôl bosibl gwyddoniaeth dinesydd o ran gwella monitro a chasglu data ar ollyngiadau a'u heffaith ar ddŵr derbyn. Dywedodd

> *"one of the things that we're looking at doing is how we can better use other people's evidence and how we can better use, as you say, the technology and the information and the skills that are out there that don't necessarily sit with NRW. That's a key part of our next steps."*

## Y dull o gydymffurfio yng Nghymru

**30.** Gall cwmnïau dŵr fod yn torri amodau eu trwydded os bydd gollyngiadau carthion yn digwydd ac eithrio yn ystod glaw trwm, neu os nad ydynt yn trin digon o garthion cyn iddynt gael eu rhyddhau. Rhaid iddynt 'hunan-adrodd' am achosion o dorri trwydded/digwyddiadau llygredd i Cyfoeth Naturiol Cymru (neu Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer cwmnïau dŵr yn Lloegr).

**31.** Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru y bydd cwmnïau dŵr yn wynebu cosbau tanberfformio os na fyddant yn hunan-adrodd am achosion o dorri trwydded a/neu ddigwyddiadau llygredd,

felly, "y cymhelliad i'r cwmnïau yw sicrhau eu bod yn adrodd y nifer cywir". Dywedodd fod perfformiad hunan-adrodd yng Nghymru wedi cynyddu o tua 30 y cant yn 2012 i safon y diwydiant o 80 y cant.

**32.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi Asesiadau o Berfformiad Amgylcheddol (EPA) blynyddol ar gyfer Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy. Mae adroddiadau 2020 yn dangos bod perfformiad hunan-adrodd Dŵr Cymru wedi cyrraedd 80 y cant, a bod Hafren Dyfrdwy wedi hunan-adrodd 100 y cant o ddigwyddiadau llygredd.

### Ymchwilio i ddigwyddiadau llygredd

**33.** Yn ôl adroddiad Asesiad Perfformiad Amgylcheddol blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Dŵr Cymru yn 2020, mae ganddo'r nifer lleiaf o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth Uchel-Isel (Categori 1-3) hyd yn hyn, gyda 77[2]. O'r rheini, cafodd 76 effaith amgylcheddol Isel (Categori 3) a chafodd un effaith amgylcheddol Uchel (Categori 2). Yn 2020 cyflawnodd Dŵr Cymru statws gwyrdd ar gyfer digwyddiadau llygredd am y tro cyntaf.

**34.** Mae adroddiad Hafren Dyfrdwy yn dangos "perfformiad amrywiol yn 2020 ar gyfer digwyddiadau llygredd". Cafodd y cwmni gynnydd yn nifer y digwyddiadau carthffosiaeth – pump yn 2020, o'u cymharu â dau yn 2019. Yn 2020, roedd dau o weithfeydd trin carthion, un o orlif carthion cyfun trwyddedig, a dau o garthffos fudr; cafodd y pump ohonynt i gyd effaith amgylcheddol Isel (Categori 3).

**35.** Cafwyd galwadau am adolygiad o ddull Cyfoeth Naturiol Cymru o ymchwilio i achosion o lygredd dŵr, gan gynnwys llygredd carthion. Mynegwyd pryder nad yw miloedd o ollyngiadau ar raddfa fach yn destun ymchwiliadau a gyda'i gilydd, gallai'r rhain gael effaith andwyol sylweddol ar ansawdd dŵr. Mae **Nodyn Cyfarwyddyd Categoreiddio Digwyddiadau** (Ebrill 2017) Cyfoeth Naturiol Cymru yn esbonio "byddwn yn categoreiddio ein hymateb i unrhyw ddigwyddiad yn unol â'r effaith wirioneddol a phosibl ar bobl, cymunedau ac amgylchedd Cymru, ac unrhyw effeithiau ar ein sefydliad ni". Yn dilyn hysbysiad am ddigwyddiad, caiff digwyddiadau eu categoreiddio yn ôl un o bum lefel, yn unol â lefel yr effaith a'r ymateb sy'n ofynnol: Risg Effaith Lefel Uchel, Risg Effaith Lefel Isel, Digwyddiad; Cwyn; Ddim o fewn cylch gwaith.

**36.** Yn ôl y Nodyn Cyfarwyddyd, "ni fydd y rhan fwyaf o Ddigwyddiadau Effaith Lefel Isel yn haeddu ymweliad". Mae'n nodi y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru "ond yn mynd i Ddigwyddiadau

[2] Nid yw pob digwyddiad llygredd carthffosiaeth yn digwydd o ganlyniad i orlifoedd stormydd.

Effaith Lefel Isel os yw'n briodol drwy gynllunio i ymweld ar ddyddiad neu adeg hwyrach, fel rhan o'n gwaith arferol, ac yn dibynnu ar y risgiau a phenderfyniad yr asesiad".

**37.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor mai rhan o'r rheswm dros gategoreiddio digwyddiadau llygredd yw sicrhau "ei fod yn gallu ymateb i'r digwyddiadau llygredd mwyaf, gwaethaf, a bod y rheini'n flaenoriaeth". Ychwanegodd:

> *"we don't ignore the low level [incidents], but they do tend to form more of the general picture and will be picked up more through monitoring than any incident attendance. We simply don't have the resources to respond to everything."*

### Camau gorfodi

**38.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor, ers 2013, ei fod wedi cymryd y camau gorfodi a ganlyn yn erbyn cwmnïau dŵr: 13 erlyniad, 24 o rybuddion ffurfiol, pedwar ymgymeriad gorfodi (yn ymwneud â gweithgareddau pysgota yn unig), 213 o lythyrau rhybudd a 31 achos o gyngor ac arweiniad.

## Buddsoddi mewn gwelliannau

**39.** Nododd cyfranwyr y trefniadau presennol ar gyfer penderfynu ar fuddsoddiad i wella'r rhwydwaith rheoli dŵr gwastraff , a lefelau'r buddsoddiad ar gyfer 2020-25.

**40.** Dywedodd Hafren Dyfrdwy ei fod yn buddsoddi £7.6 miliwn ar wella 46km o afonydd, gan gynnwys buddsoddi mewn llif i driniaeth lawn [y llif mwyaf y gall gwaith trin dŵr gwastraff ei drin] a Monitor Hyd Digwyddiad; a £3.3 miliwn ar wella gweithfeydd trin a'r rhwydwaith gwastraff, gan gynnwys ymchwiliadau a gwelliannau i orlifoedd stormydd, a chydymffurfiaeth a chynnal a chadw gorsafoedd pwmpio. Ar gyfer yr un cyfnod mae Dŵr Cymru yn buddsoddi £101 miliwn i uwchraddio ei rwydwaith rheoli dŵr wastraff i leihau gollyngiadau fel rhan o becyn buddsoddi ehangach o £765 miliwn i ddiogelu'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys £42 miliwn drwy'r Fframwaith Asesu Gorlifoedd Stormydd i bennu asedau dŵr gwastraff i'w gwella.

## Ein barn ni

Mae lefel hyder y cyhoedd yn y drefn reoleiddio a gorfodi ar gyfer gorlifoedd stormydd yn isel.

Er mwyn dechrau adfer hyder y cyhoedd, rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru allu ymateb mewn modd amserol ac effeithiol i ddigwyddiadau llygredd, a rhaid iddo fod yn barod i gymryd camau gorfodi pan fydd achosion o dorri trwydded yn digwydd. Mewn adroddiadau blaenorol,

rydym wedi nodi ein pryderon am allu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei rolau a'i gyfrifoldebau statudol yn briodol oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau.

Rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y cyllid ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn gymesur â'i rolau a'i gyfrifoldebau, ac i gynyddu cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn canlyniad yr adolygiad sylfaenol presennol. Rydym yn ailadrodd y galwadau hynny.

Cafwyd gwelliannau sylweddol mewn tryloywder ynghylch gorlifoedd stormydd a gollyngiadau carthion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ar ôl cyflwyno dull Monitro Hyd Digwyddiadau. Ond mae lle i wella o hyd. Mae diffyg tryloywder o hyd ynghylch cyfran y gollyngiadau carthion nad ydynt o fewn amodau'r drwydded, pa gategori o ddigwyddiad llygredd gafodd y rhain, ac a gymerwyd camau gorfodi. Rydym yn credu y bydd cyhoeddi'r wybodaeth hon yn helpu i wella dealltwriaeth o'r sefyllfa yng Nghymru ac yn arwain at drafodaeth gyhoeddus fwy gwybodus.

Er bod Monitro Hyd y Digwyddiad yn darparu data defnyddiol ynghylch amlder a hyd gollyngiadau carthion, nid yw'n dweud wrthym am effaith gollyngiadau. Mae eisoes yn ofynnol i gwmnïau dŵr a Cyfoeth Naturiol Cymru fonitro ansawdd dŵr. Fodd bynnag, rydym yn credu y dylid gwella'r trefniadau monitro presennol, gyda'r nod o gael gwell dealltwriaeth o effaith gollyngiadau ar ddŵr derbyn. Wrth wneud hynny, dylid ystyried rôl bosibl gwyddoniaeth dinesydd.

Dylai Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy anelu at adrodd ynghylch gollyngiadau o orlifoedd stormydd cyn pen awr ar ôl i'r gollyngiad dechrau, sy'n ofyniad a osodir ar gwmnïau dŵr yn Lloegr gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Os na allant gyflawni'r safon hon, dylent esbonio'r rhesymau pam.

**Argymhelliad 3.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru a chwmnïau dŵr gyhoeddi data blynyddol a/neu wybodaeth am gyfran y gollyngiadau carthion nad ydynt o fewn amodau trwydded, pa gategori o ddigwyddiadau llygredd gafodd y rhain, ac a gymerwyd camau gorfodi.

**Argymhelliad 4.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru, cwmnïau dŵr a rhanddeiliaid perthnasol eraill ddatblygu trefniadau monitro gwell gyda'r nod o gael gwell dealltwriaeth o effaith gollyngiadau ar ddŵr derbyn. Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, dylid ystyried rôl bosibl gwyddoniaeth dinesydd o fewn trefniadau gwell.

**Argymhelliad 5.** Dylai Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy anelu at adrodd ynghylch gollyngiadau o orlifoedd stormydd cyn pen awr ar ôl i'r gollyngiad dechrau, sy'n ofyniad a osodir ar gwmnïau dŵr yn Lloegr gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Os na allant gyflawni'r safon hon, dylai'r ddau gwmni egluro pam.

# 4. Beth sy'n digwydd nesaf?

## Ymchwiliadau presennol Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd

**41.** Mynegwyd pryderon bod cwmnïau dŵr yn Lloegr yn methu'n rheolaidd â rhoi gwybod am ollyngiadau carthion, neu'n dweud eu bod yn 'gategori is' fel nad yw camau gorfodi yn cael eu sbarduno. Mae hyn wedi ysgogi ymchwiliadau gan Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

**42.** Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymchwilio i ddiffyg cydymffurfio posibl ag amodau trwyddedau mewn mwy na 2,200 o weithfeydd trin carthion yn Lloegr.[3] Dywedodd Ofwat wrth y Pwyllgor:

> *"Awgryma gwybodaeth newydd y mae rhai cwmnïau dŵr wedi'i rhannu ag Asiantaeth yr Amgylchedd bod cwmnïau dŵr ddim wedi bod yn trin faint o wastraff y dylent cyn ei ddargyfeirio i danciau stormydd a/neu ei ryddhau i'r amgylchedd. Os yw hyn yn wir bydd cwmnïau wedi torri amodau eu trwyddedau amgylcheddol."*

**43.** Bydd ymchwiliad Ofwat, sydd hefyd yn ymestyn i gwmnïau dŵr yng Nghymru, yn ystyried "a yw unrhyw ddiffyg cydymffurfio posibl â thrwyddedau yn awgrymu efallai nad yw'r cwmni dan sylw yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol eraill sydd gan gwmni dŵr, y mae Ofwat yn gyfrifol am eu gorfodi". Mae'r rhain yn cynnwys gofynion sydd gan gwmnïau dŵr o ran sut, yn gyffredinol, y maent yn gweithredu, yn rheoli ac yn adrodd ar eu perfformiad, gan gynnwys eu gweithfeydd trin dŵr gwastraff. Gall Ofwat gymryd camau gorfodi yn erbyn cwmnïau dŵr sy'n methu â bodloni eu gofynion cyfreithiol.

**44.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor nad oedd yn bwriadu cynnal ymchwiliad i achosion posibl o dorri trwyddedau gan gwmnïau dŵr yng Nghymru gan fod ganddo "ymateb cydymffurfio ar waith" eisoes. Eglurodd fel a ganlyn:

> *"Information has been shared by the companies since 2014 and we are working with both companies to identify causes, rectify those where possible, and set out plans to bring those sites back into compliance at the earliest opportunity. Currently 32 sites have been rectified and 37 more will be worked on in the current period of water company investment (2020-25). Where NRW feels action is not progressing as required, and as further data is*

[3] Mae Dŵr Cymru yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr. Mae ymchwiliad Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnwys gweithrediadau Dŵr Cyrmu yn Lloegr.

*collected by the company and shared with NRW, we will take the necessary action to ensure non-compliance with permit is dealt with appropriately."*

**45.** Fodd bynnag, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd ei fod yn "gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat Cymru i benderfynu pa gamau gweithredu a gynigir yn sgil eu canfyddiadau", ac "os bydd angen adolygu ein dull o weithredu wrth i'r ymchwiliadau yn Lloegr fynd rhagddynt, byddwn yn cymryd y camau gofynnol".

**46.** Yn ei llythyr at y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog:

*"Mae CNC yn cydweithio â'r cwmnïau dŵr ac yn adolygu eu rôl fel rheoleiddiwr mewn perthynas â phob ased yn barhaus. Maent yn datgan y byddant yn defnyddio eu pwerau i fwrw ymlaen â gwaith gwella os bydd angen gwneud hynny. Mae CNC wedi cyhoeddi hysbysiadau gorfodi lle maent yn teimlo nad yw'r gwaith sydd ei angen yn cael ei wneud."*

## Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell Cymru

**47.** Cyfeiriodd y cyfranwyr at waith parhaus Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell Cymru (y Tasglu), a sefydlwyd ym mis Mehefin 2021 "i archwilio a gwerthuso'r dull presennol o reoli a rheoleiddio gorlifo stormydd yng Nghymru". Mae'r Tasglu yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, Ofwat, Dŵr Cymru, Hafren Dyfrdwy, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, ac Afonydd Cymru.

**48.** Mae'r Tasglu yn datblygu map ffordd ar gyfer Gorlifoedd Storm yng Nghymru (y map ffordd), a fydd yn cynnwys argymhellion sydd â'r nod o fynd i'r afael ag effeithiau gollyngiadau carthion a chynllun gweithredu i yrru'r gwaith angenrheidiol yn ei flaen. Esboniodd Hafren Dyfrdwy y bydd argymhellion y Tasglu yn canolbwyntio ar: leihau effaith weledol gorlifoedd stormydd, rheoleiddio amgylcheddol, gallu'r rhwydwaith, a gwell monitro ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a chwsmeriaid. Dywedodd Hafren Dyfrdwy ei fod yn "datblygu rhaglen sy'n ategu ein cynlluniau presennol ac yn cyflawni'r argymhellion hyn".

## Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff

**49.** Yn ei llythyr at y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog y cyhoeddir y[4] Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff anstatudol cyntaf hyd at 2050 gan gwmnïau dŵr yn 2022. Esboniodd:

[4] Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bwriad i roi Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff ar sail statudol yn ddiweddarach yn y Chweched Senedd drwy bwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021.

*"bydd y rhain (Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff) yn amlinellu cynllun tymor hir a thymor byr i leihau'r gollyngiadau o ddraeniau stormydd cyfunol ac unrhyw niwed amgylcheddol ganddynt. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau gwell ar gyfer trin carthion, capasiti uwch ar gyfer storio a ffyrdd naturiol, ecogyfeillgar o leihau faint o ddŵr sy'n mynd i mewn i'r system garthffosiaeth."*

**50.** Dywedodd Dŵr Cymru ei bod yn mynd drwy'r broses o ddatblygu ei Gynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff, sy'n "ystyried sut y gallwn weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i leihau'r perygl o lifogydd a'n heffaith ar yr amgylchedd rhwng nawr a 2050".

## Atebion ar sail natur a Systemau Draenio Cynaliadwy

**51.** Roedd y cyfranwyr yn cydnabod pwysigrwydd atebion ar sail natur a Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) fel ffyrdd o leddfu pwysau ar y system garthffosiaeth i leihau amlder gollyngiadau carthion.

**52.** Darparodd Dŵr Cymru fanylion ei gynlluniau ôl-osod systemau draenio cynaliadwy, Grangetown Werddach a GlawLif. Dywedodd, "mae'r cynlluniau hyn yn dangos nad oes 'ateb cyflym' nac 'ateb hawdd' i leihau ein dibyniaeth ar orlifiannau yn y byrdymor oherwydd bydd yn gofyn am gryn fuddsoddiad a chydweithio". Dywedodd Dŵr Cymru wrth y Pwyllgor ei fod wedi bod yn gweithio ar ddau gynllun newydd (ym Mhontyfelin a Merthyr). Ychwanegodd:

*"The more we look, the more we can talk about these [NBS] and try to get a few more examples in the ground, then I think the easier it will be to get them moving. That's the goal for the next couple of years – get a few real good examples in Wales, in the ground, that we can take people to and say, 'Hey, this is the answer: this is where we need to be going', rather than just putting in bigger pipes and more storage, which brings a whole heap of other problems as well."*

**53.** Awgrymodd Hafren Dyfrdwy y dylai atebion ar sail natur fod yn "ddewis cyntaf cwmnïau dŵr i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol" ac "y dylid gwrthdroi baich y prawf i bob pwrpas i ofyn am esboniad ynghylch pam nad yw ateb ar sail natur yn briodol".

## Llygredd dŵr o ffynonellau eraill

**54.** Cydnabu Dŵr Cymru "er bod gennym ran bwysig i'w chwarae yn gwella ansawdd dŵr afonydd", dywedodd fod "angen i welliannau mwy sylweddol gael eu cyflawni gan sectorau eraill (yn fwyaf nodedig amaethyddiaeth, rheoli tir a dŵr o fwyngloddiau)". Ategodd Hafren Dyfrdwy hyn, a dywedodd:

> *"The diagnosis clearly shows that water companies have action to take, but unless the issue of agricultural pollution is also addressed, health of rivers in Wales are unlikely to improve materially."*

**55.** Pwysleisiodd y cyfranwyr yr angen am gydweithio o fewn ac ar draws y sector i wella ansawdd dŵr afonydd yng Nghymru.

**56.** Yn ei llythyr at y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog:

> *"Nid gollyngiadau o ddraeniau stormydd cyfunol yw prif achos ansawdd dŵr gwael yng Nghymru – y prif achosion yw dŵr ffo o wastraff anifeiliaid a chemegau a ddefnyddir mewn amaethyddiaeth, llygredd o fwyngloddiau segur, dŵr ffo o ardaloedd adeiledig, a phibellau carthion wedi'u cysylltu â rhwydweithiau draenio'n anghywir."*

## Ein barn ni

Mae llygredd afonydd yn argyfwng na fydd ond yn gwaethygu heb ymyrraeth sylweddol ar unwaith. Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn ymateb i'r pryder mawr gan y cyhoedd, yn fwyaf nodedig wrth sefydlu Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell Cymru, a datblygu map ffordd ar gyfer gorlifoedd stormydd a chynllun gweithredu cysylltiedig.

Credwn y dylai'r map ffordd fod yn uchelgeisiol a dylai anelu at leihau gollyngiadau carthion. Dylai gynnwys targedau ac amserlenni a dulliau monitro ac adrodd cynhwysfawr a thryloyw. Byddwn yn dymuno ystyried y cynllun gweithredu pan fydd ar gael, a byddwn yn dychwelyd at y mater hwn i asesu cynnydd maes o law.

Edrychwn ymlaen at gyhoeddiad Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff cwmnïau dŵr yn ddiweddarach yn 2022. Rydym yn disgwyl i'r cynlluniau hyn gynnwys mesurau uchelgeisiol i leihau'r gollyngiadau o orlifoedd stormydd ac unrhyw niwed amgylcheddol sy'n deillio ohonynt.

Ysgogwyd ein gwaith ar orlifoedd stormydd yn rhannol gan yr ymchwiliadau i danadrodd eang honedig o achosion o dorri trwyddedau gan gwmnïau dŵr yn Lloegr. Roeddem yn awyddus i ddeall yn well y rheswm dros yr ymchwiliadau, ac i ddysgu am ddull cydymffurfio parhaus Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru a'i ymateb i'r ymchwiliadau hyn.

Rydym yn nodi bod cwmnïau dŵr yng Nghymru yn rhan o'r ymchwiliadau presennol gan Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd i achosion posibl o dorri trwyddedau. Rydym yn disgwyl i Ofwat adrodd yn ôl inni ar ganfyddiadau ei ymchwiliad, i'r graddau y maent yn ymwneud â chwmnïau yng Nghymru, gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i'r canfyddiadau hynny. Yn

dilyn hyn, rydym yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru adrodd yn ôl i ni ynghylch y camau a gymerwyd o ganlyniad i ganfyddiadau Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Rydym yn cydnabod y bydd rheoli'r galw ar y system garthffosiaeth, ac annog defnydd mwy effeithlon o ddraeniau a charthffosydd, yn hanfodol er mwyn lleihau amlder gollyngiadau carthion yn y tymor hwy. Bydd hyn yn gofyn am ystyriaethau traws-sector, gan gynnwys ymyriadau wrth gynllunio i fynd i'r afael yn well ag 'ymlusgo trefol'.

Mae'r dystiolaeth gan gyfranwyr yn awgrymu bod y sector yn awyddus i fabwysiadu atebion ar sail natur i reoli dŵr. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'n arafach nag yr hoffem. Rydym yn awyddus i ddeall rhwystrau i fabwysiadu atebion ar sail natur gan gwmnïau dŵr a sut y gellir goresgyn y rhain.

Rydym yn cydnabod nad gorlifo stormydd yw prif achos ansawdd afonydd gwael yng Nghymru. Mae nifer o weithgareddau a sectorau yn effeithio ar y rhan fwyaf o afonydd, ac mae'r rhain yn ddarostyngedig i'w trefniadau rheoleiddio eu hunain. Mae parodrwydd clir ymhlith cyfranwyr i gydweithio ar draws sectorau i helpu i wella ansawdd dŵr afonydd, ac rydym yn croesawu hynny.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y map ffordd ar gyfer Gorlifoedd Stormydd yn cynnwys targedau ac amserlenni ar gyfer lleihau gollyngiadau carthion. Dylai gynnwys dulliau monitro ac adrodd cynhwysfawr a thryloyw er mwyn gallu asesu cynnydd. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y cynnydd tuag at gyflawni'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r map ffordd ar gyfer Gorlifoedd Stormydd o fewn 12 mis ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.

**Argymhelliad 7.** Dylai Ofwat adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau ei ymchwiliad i gwmnïau dŵr, i'r graddau y mae'r canfyddiadau hynny'n ymwneud â chwmnïau yng Nghymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i'r canfyddiadau hynny.

**Argymhelliad 8.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch y camau a gymerwyd o ganlyniad i ganfyddiadau ymchwiliadau Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd, cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw adolygiad o ddull cydymffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru ac unrhyw waith a wneir gyda chwmnïau dŵr, neu gamau gorfodi a gymerir yn eu herbyn, o ganlyniad i'r canfyddiadau hynny.

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Gweinidog weithio gyda phartneriaid i nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau i gynyddu atebion ar sail natur i reoli dŵr. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch y mater hwn heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn yn nodi'r gwahanol gamau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â phroblem llygredd yn afonydd Cymru o ffynonellau ar wahân i orlifoedd stormydd.